



Urdd

- Teitl y Swydd:** Swyddog leuenctid Brycheiniog a Maesyfed.
- Math o gontract:** Cytundeb penodol – Blwyddyn. rhan amser: 21 awr yr wythnos.
- Graddfa:** Graddfa 5: £19,442 (Pwynt 1) - £22,539 (Pwynt 6) pro rata
- Lleoliad:** I'w drafod.

Cytundeb blwyddyn yn y lle cyntaf. Mae'r swydd wedyn yn hollol ddibynnol ar gadarnhad parhad grant gan Gyngor Powys.

Prif bwrpas y swydd yw cyd-gordio a sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc Brycheiniog a Maesyfed i ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol o fewn ac allan i'r Ysgol drwy gydweithio a'r Gwasanaeth leuenctid, ysgolion a phartneriaid eraill.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Siân Rogers (Cyfarwyddwr leuenctid a Chymuned y Gogledd) ar 07976 003320 neu sianrogers@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad cau: Mehefin 25 am 10.00y.b. 2018.

Cyfweliadau: Gorffennaf 5ed, 2018

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Swyddog leuenctid Brycheiniog a Maesyfed – 21 awr yr wythnos	Lleoliad:	Swyddfa - i'w drafod
Adran:	Maes	Yn gyfrifol am:	n/a
Yn atebol i:	Swyddog B&M a thrwyddi hi i Gyfarwyddwr y Dalaith.	Gradd:	Graddfa 5: £19,442 (Pwynt 1) - £22,539 (Pwynt 6) pro rata

Prif bwrpas y swydd:

Cynorthwyo'r Swyddog Datblygu gyda holl elfennau o gynnal a datblygu gwaith leuenctid y Rhanbarth mewn cytundeb a'r Cyngor a Menter Iaith Brycheiniog a Maesyfed. Prif nod y swydd yw cynyddu gwaith leuenctid Cyfrwng Cymraeg yn ardal Brycheiniog a Maesyfed. Prif oedran targed y swydd yw 11 - 25 oed. Bydd hefyd yn cynnwys elfennau o weithio gyda'r oedran 8 - 11 oed yn bennaf yn canolbwyntio ar drosglwyddo effeithiol o ddiddordebau allgyrsiol / addysg anffurfiol tu allan i oriau ysgol gan sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Iaith Gymraeg.

Bydd targedau penodol i'r swydd sy'n sicrhau cynyddu cyswllt cymunedol gyda pobl ifanc.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cynyddu'r nifer o glybiau leuenctid Cymraeg yn y rhanbarth gan adnabod ardaloedd ac arweinwyr priodol a chefnogi'r ddarpariaeth sydd yno yn barod. Sicrhau bod o leiaf 3 clwb yr wythnos mewn lleoliadau amrywiol ar hyd y Sir sy'n cydfynd a targedau y Cyngor. Mae'n rhaid i hyn gynnwys o leiaf 2 noson.
2. Cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc yn yr ysgolion uwchradd er budd dylanwadu ar eu dewis o iaith gymdeithasol . E.e. trefnu gweithgareddau newydd o fewn amser a thu allan i oriau ysgol, annog mynychu gweithgareddau'r Urdd a'r Fenter a chlybiau ieuenctid y sir.
3. Gwella a dwysau'r berthynas gydag ysgolion lleol gan dynnu eu sylw a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir gan y partneriaid ac o ganlyniad yn codi proffil gweithgareddau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg.
4. Cynnal Clybiau Cinio o fewn i'r ysgolion Uwchradd.
5. Cydweithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Powys i sicrhau rhaglen o weithgarwch Cymraeg o fewn eu darpariaeth leuenctid hwy yn unol a thargedau.
6. Cynnal a chefnogi Fforymau Ieuenctid yr Urdd yn yr ardal gan annog aelodau i fynychu Ffowrm Bwrdd Syr IfanC yn ogystal a gweithgarwch Cenedlaethol arall.
7. Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith i bobl ifanc pan fo cyfleoedd yn codi.
8. Trefnu/arwain achrediaidau i bobol Ifanc yn y rhanbarth.
9. Sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli o fewn y Rhanbarth.
10. Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn mynychu cyfnodau preswyl yng Ngwersylloedd yr

Urdd gan ehangu ar y ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg.

11. Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglenni mewnol a gwefan/app yr Urdd ac hefyd adroddiadau tendr i'r Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar facebook a twitter y Rhanbarth. Sicrhau bod tystiolaeth weledol ar gael i gyflwyno i'r cyngor, gall hyn cael i gyflwyno fel fideo.
12. Gofynnir i chi gefnogi gwaith y Swyddog Datblygu, Y Fenter a'r pan fo galw i wneud hynny.

Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl.
- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr / arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Byddai unrhyw brofiad a chymhwyster mewn gwaith ieuenctid o fantais (cynigir cwrs penodol OCN lefel 3 yn rhan o'r swydd onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster).
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio gyda mewn partneriaeth gyda chyrff/ mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
- Byddai profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, o fantais.
- Byddai profiad o lunio a darparu asesiadau risg yn fanteisiol ag ymwybyddiaeth o brosesau lechyd a Diogelwch.

Hanfodol:

- Gallu gweithio ar liwt eu hunain ac hefyd cydweithio fel aelod o dim.
- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o fobl.
- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr/arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

Dymunol:

- Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda plant a phobl ifanc – boed yn gyflogedig neu yn wirfoddol.
- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2/3 – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd
- Hyfforddiant lechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety) – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd i'w dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb, gellir drafod hyn yn y cyfarfod tymhorol.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd

penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma yn Mis Mai 2018 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Swyddog Ieuenctid Brycheiniog a Maesyfed
Yn atebol i:	Swyddog Datblygu Brycheiniog a Maesyfed a thrwyddi hi i Gyfarwyddwr y Dalaith.
Cyflog:	Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd £19,442 (pwynt 1) – £22,539 (pwynt 6) pro rata . Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol
Cytundeb:	Tymor penodol o flwyddyn.
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 21 awr yr wythnos, ac i gynnwys oriau anghymdeithasol nos a phenwythnosau. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	I'w gadarnhau
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol (pro rata) ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus (pro rata) - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod (pro rata) ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod (pro rata) ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 3 mis.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.